Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2020 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2189A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 14

Atodiad 2 – ffi archwilio 16

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 17

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio 2020 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o'r cyfrifon
- Trefniadau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Gwnaed y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. O ystyried ei effaith, ail-luniais fy rhaglenni gwaith arfaethedig drwy ystyried y ffordd orau o sicrhau pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Ystyriais effaith yr argyfwng presennol ar gadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol a fy nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn rhwystro cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Ataliwyd yr holl waith archwilio ar safleoedd ond fe wnaethom ni barhau i weithio ac ymgysylltu o bell pan oedd hynny'n bosibl, trwy ddefnyddio technoleg. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar gyflawni rhywfaint o fy ngwaith archwilio arfaethedig, ond mae hefyd wedi ysgogi newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

4 Nid oedd cyflawni fy archwiliad o'r cyfrifon heb ei heriau, nid yn unig o ran sut a ble y gwnaethom y gwaith, ond hefyd o ran ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol a oedd yn deillio'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r llwyddiant o ran cyflawni'r amserlen ddiwygiedig yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff i a swyddogion y Bwrdd Iechyd, er mwyn croesawu a galluogi ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg ac yn ystyriol o'r materion niferus a gododd.

5 Ar ddechrau'r pandemig, fe wnes i atal cyhoeddiad rhai adroddiadau archwilio perfformiad a oedd bron wedi eu cwblhau, gan adlewyrchu capasiti cyrff a archwiliwyd i gefnogi'r gwaith maes a oedd yn weddill ac er mwyn cyfrannu at glirio allbynnau archwilio drafft. Rwyf hefyd wedi addasu pwyslais a dull rhai adolygiadau arfaethedig eraill er mwyn sicrhau eu perthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng. Mae ffrydiau gwaith newydd wedi eu cyflwyno, megis fy adolygiad o'r rhaglen Profi,

Olrhain a Diogelu, ac mae fy nhimau archwilio lleol wedi cyfrannu at fy ngwaith dysgu COVID-19 ehangach.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith arfaethedig sy'n cael ei ail-gwmpasu ar hyn o bryd.

7 Cyflwyna **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu costau fy ngwaith, o'u cymharu â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2020.

8 Noda **Atodiad 3** y risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio Dangosol 2020 a sut yr ymdriniwyd â nhw drwy'r archwiliad.

9 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Rhagfyr 2020. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

11 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel yr oeddent yn berthnasol i fy archwiliad). Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar y broses o'u paratoi. Fodd bynnag, rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â Chyfarwyddyd Gweinidogol i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol 2019-20. Nid addaswyd fy marn mewn cysylltiad â'r mater hwn.

12 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd fantoled ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon y Bwrdd Iechyd.

13 Ochr yn ochr â fy marn archwilio, gosodais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y methiant i gyflawni mantoled ariannol ac i gael cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

14 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal pwyslais cyffredinol da ar lywodraethu, risg ac ansawdd yn ystod ei ymateb i gam cyntaf y pandemig;
- rhoddwyd trefniadau ariannol rhesymol ar waith er mwyn ymateb i COVID-19, a chyn cyhoeddi'r dyraniad ariannol ychwanegol diweddar ym mis Tachwedd, roedd risgiau sylweddol i sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd;
- mae cynlluniau gweithredol chwarterol y Bwrdd Iechyd yn ei helpu i ymateb i amrywiaeth o risgiau cymhleth sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, ond mae angen strategaeth i adfer gwasanaethau er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn darparu capasiti cynaliadwy a gwelliannau mewn cynhyrchiant;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll, mae ganddo drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal a chanfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd;
- yn gyffredinol, fe wnes i ganfod bod y penodiadau dros dro wedi eu gwneud yn unol â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ond bod y gyfradd ddyddiol a dalwyd i'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro yn uwch na mwyafrif y cymaryddion meincnod;
- llwyddodd gwaith ailwampio Ysbyty Glan Clwyd i gael gwared â'r asbestos a chreu gwell cyfleusterau i gleifion, ond roedd sawl gwendid o ran llywodraethu a rheoli'r prosiect a arweiniodd at dwf sylweddol mewn costau; a
- fe wnes i weld bod gwendidau mewn llywodraethu a goruchwylio wedi arwain at aneffeithlonrwydd, amrywiadau a thensiynau yn y broses o reoli gofal iechyd parhaus, ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu cynllun uchelgeisiol ar gyfer gwella.

15 Ystyrir y canfyddiadau hyn yn fanylach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

16 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20. Y datganiadau hyn yw sut y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifau arian parod. Mae paratoi'r datganiadau yn elfen hanfodol o ran dangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

17 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2019-20 y Bwrdd Iechyd. Mae **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3** yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw yn rhan o'r archwiliad.

18 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi datganiadau ariannol 2019-20

19 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel yr oeddent yn berthnasol i fy archwiliad). Fodd bynnag, rhoddais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â Chyfarwyddyd Gweinidogol i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol 2019-20.

20 Rydym yn cydnabod cyflawniad sylweddol y tîm Cyllid wrth baratoi'r datganiadau ariannol i safon dda yn wyneb yr heriau yn sgil y pandemig.

21 Cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n codi o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 29 Mehefin 2020. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
| --- | --- |
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Roedd sawl camddatganiad a gywirwyd i gywiro gwallau dosbarthu neu ddarparu datgeliad naratif ychwanegol. |
| Materion arwyddocaol eraill | Diwygiwyd y cyfrifon er mwyn cynnwys rhwymedigaeth amodol sy'n deillio o Gyfarwyddyd Gweinidogol i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr y GIG mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol 2019-20. Mae fy adroddiad archwilio yn cynnwys Pwyslais ar Fater mewn cysylltiad â hyn. |

22 Cynhaliais hefyd adolygiad o ddatganiad Cyfrifon y Llywodraeth gyfan. Penderfynais fod gwybodaeth gadarnhau y parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2020 a pharatowyd y datganiad yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

23 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol bron wedi ei gwblhau, a rhagwelaf y bydd y cyfrifon yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ar 8 Rhagfyr 2020, ar ôl ystyried fy adroddiad ar y datganiadau ariannol, a bydd y farn archwilio yn cael ei chyhoeddi yn fuan wedyn.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

24 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd fantoled ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, ac nid oedd ganddo unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol eraill nad oeddent yn unol ag awdurdodau na ddefnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2019-20 y Bwrdd Iechyd.

25 Mae'n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae'n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i dderbyn yr incwm ac i ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn neu i'w hysgwyddo.

26 Pan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni mantoledd ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi roi amod ar fy marn reoleidd-dra. Ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, gwariodd y Bwrdd Iechyd £118.813 miliwn yn fwy na'i derfyn adnoddau refeniw cronnol o £4,566 miliwn, felly ni chyflawnodd ei ddyletswydd ariannol.

27 Mae gen i'r pŵer i gyflwyno adroddiad sylweddol am gyfrifon y Bwrdd Iechyd ynghyd â fy marnau pan rwyf yn dymuno tynnu sylw at faterion. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol, cyhoeddais adroddiad sylweddol sy'n nodi'r manylion ffeithiol: methodd yn ei ddyletswydd i sicrhau mantoledd ariannol (fel y nodir uchod) ac nid oes ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ac mae'n gweithredu o dan drefniadau cynllunio blynyddol.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

28 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau atal twyll y Bwrdd Iechyd;
- archwilio trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Aelodau Staff Dros Dro;
- adolygu prosiect Ailwampio Ysbyty Glan Clwyd; ac
- asesu'r trefniadau rheoli sy'n helpu i ddarparu Gofal Iechyd Parhaus.

29 Nodir isod fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn.

## Asesiad strwythuredig

30 Cynlluniwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Sicrheais ddull addas o bragmatig a pherthnasol i fy helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Roedd pwyslais allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol pan fu'r rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol, yn enwedig o dan yr amgylchiadau presennol.

31 Grwpiodd yr asesiad strwythuredig ein canfyddiadau o dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol: cefnogi'r ymateb parhaus i'r pandemig ynghyd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

## Trefniadau llywodraethu

32 Ystyriodd fy ngwaith allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn gan orfod ymateb yn sydyn i'r heriau digynsail a gyflwynwyd gan y pandemig. Canfu fy ngwaith, **yn gyffredinol, fod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal pwyslais cyffredinol da ar lywodraethu, risg ac ansawdd yn ystod ei ymateb i gam cyntaf y pandemig.**

33 Diwygiodd y Bwrdd Iechyd ei drefniadau llywodraethu a rheoli mewn ymateb i'r heriau sylweddol a gyflwynwyd gan COVID-19. Roedd y gorchymyn a'r rheolaeth a'r cabinet yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau hyblyg a gwaith craffu effeithiol. Fodd bynnag, gwelais gyfle i wella'r cynllunio at argyfwng er mwyn cryfhau trefniadau cadernid yn y dyfodol. Yn ystod ton gyntaf y pandemig, cymerodd y Bwrdd gamau er mwyn cynnal ei fusnes yn dryloyw, a dangosodd arweinyddiaeth dda, ond mae'r pwysau'n parhau, ac felly mae angen sicrhau cadernid yr uwch reolwyr.

34 Datblygodd y Bwrdd Iechyd drefniadau penodol ar gyfer rheoli risgiau mewn cysylltiad â COVID-19 ochr yn ochr â pharatoadau parhaus i weithredu ei strategaeth newydd ar gyfer rheoli risgiau. Roedd fy ngwaith yn cydnabod rhywfaint o gynnydd o ran cryfhau strwythurau sefydliadol hefyd, yn enwedig mewn gwasanaethau acíwt, ond ar yr un pryd, mae rhai pryderon hefyd mewn meysydd penodol megis yr isadran Iechyd Meddwl.

## Rheoli adnoddau ariannol

35 Ystyriais berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol. Fe wnes i ganfod bod **trefniadau ariannol rhesymol wedi eu rhoi ar waith er mwyn ymateb i COVID-19, a chyn cyhoeddiad y dyraniad ariannol ychwanegol diweddar ym mis Tachwedd, roedd risgiau sylweddol i sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd.**

36 Mae gan y Bwrdd Iechyd heriau ariannol hirdymor ac mae wedi parhau i fethu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn 2019-20. Er i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ychydig mwy o arbedion nag a gynlluniwyd, sef ychydig dros £35 miliwn, ar adeg yr archwiliad, roedd risgiau ariannol sylweddol mewn cysylltiad â chyflawni diffyg arfaethedig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21. Ers hynny, mae'r risgiau hyn wedi eu lleihau rywfaint drwy ddyraniad ariannol Llywodraeth Cymru i gefnogi gwariant COVID-19 a chyllid ychwanegol i gefnogi gwelliant mewn perfformiad, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd.

37 Gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn 2019, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wella trefniadau a rheolaethau rheoli ariannol, gan wneud cynnydd da ar argymhellion ymgynghorwyr ariannol allanol. Canfu fy ngwaith hefyd fod rheolaethau ariannol allweddol wedi gweithredu drwy gydol y pandemig, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud rhagor o waith er mwyn darparu sicrwydd i'r Bwrdd.

### Cynllunio Gweithredol

38 Ystyriodd fy ngwaith gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 a darparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, canolbwyntiwyd ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol a rheolaidd pan fydd gwneud hynny'n ddiogel ac yn ymarferol. **Canfu fy ngwaith fod cynlluniau gweithredol chwarterol y Bwrdd Iechyd yn ei helpu i ymateb i amrywiaeth o risgiau cymhleth sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, ond bod angen strategaeth i adfer gwasanaethau er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn darparu capasiti cynaliadwy a gwelliannau mewn cynhyrchiant.**

39 Fel cyrff iechyd eraill yng Nghymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu proses gynllunio tymor byrrach i'w helpu i ymateb i'r amgylchedd sy'n newid yn sydyn o ganlyniad i COVID-19. Mae fy ngwaith wedi canfod bod y broses gynllunio chwarterol yn gwella, ond bod angen craffu'n gynharach ar gynlluniau, a rhagor o esboniadau o'r risgiau i gyflawni llwyddiannus. Mae angen eglurhad cryfach hefyd o'r effaith a'r canlyniadau a ddisgwylir yn y cynlluniau chwarterol. Dylai hyn helpu i sicrhau y gall y broses o fonitro cynnydd asesu'n well y manteision a geir drwy gyflawni'r cynlluniau hynny.

40 Mae COVID-19 wedi gwaethygu'r hyn a oedd eisoes yn sefyllfa heriol o ran amseroedd aros am driniaeth ddewisol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, efallai y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn uchelgeisiol yn y ffordd y mae'n creu'r capasiti am wasanaethau angenrheidiol, gan gynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn y broses, er mwyn helpu i lywio dull adfer cynaliadwy. Datblygodd y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli newid angenrheidiol er mwyn ymateb i'r pandemig, addasodd ei gapasiti er mwyn bodloni'r galw disgwyliedig, ymatebodd yn dda i heriau a risgiau ei weithlu, gweithredodd yr ysbytai Enfys a gwnaeth gynnydd gyda rhai datblygiadau digidol sylweddol. Dangosodd yr ymateb cyffredinol i COVID-19 y gall y Bwrdd Iechyd sicrhau newid cymhleth yn sydyn a dylai geisio adeiladu ar gryfderau'r trefniadau hynny ar gyfer y dyfodol.

## Effeithiolrwydd y trefniadau atal twyll

41 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddais drosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn disgrifio trefniadau atal twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yna, cynhaliodd fy nhîm archwiliad manylach ar draws ystod o gyrff sector cyhoeddus Cymru er mwyn archwilio effeithiolrwydd trefniadau gwrth-dwyll yn

ymarferol a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddais Gwella Ein Perfformiad Mynd ir Afael â Thwyll yng Nghymru sy'n nodi crynodeb o fy nghanfyddiadau a saith 'thema allweddol' y mae angen i'r holl gyrff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth wella eu perfformiad er mwyn mynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol.

42 Er na chafodd y gwaith hwn ei gynnwys yng nghynllun archwilio'r Bwrdd Iechyd, cyhoeddais adroddiad ychwanegol hefyd sy'n nodi trefniadau penodol y Bwrdd Iechyd ar gyfer atal a chanfod twyll. Fe wnes i ganfod bod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll, bod ganddo drefniadau addas i gefnogi'r gwaith o atal ac o ganfod twyll a'i fod yn gallu ymateb yn briodol pan fo twyll yn digwydd.

## Trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Aelodau Staff Dros Dro

43 Archwiliodd fy adolygiad y broses y dilynodd y Bwrdd Iechyd wrth benodi pum uwch aelod o staff dros dro rhwng mis Chwefror a mis Hydref 2019, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro. Yn gyffredinol, fe wnes i ganfod bod y penodiadau dros dro wedi eu gwneud yn unol â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ond bod y gyfradd ddyddiol a dalwyd i'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro yn uwch na mwyafrif y cymaryddion meincnod.

44 Nododd fy adolygiad fod yr holl benodiadau dros dro wedi eu gwneud gan ddefnyddio cwmnïau a restrwyd ar gytundebau fframwaith cymeradwy. Mae hyn yn gyson â'r darpariaethau a nodir yng Nghyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chanllawiau Caffael ar gyfer Staff y Bwrdd Iechyd. Cytunodd Llywodraeth Cymru i gyfrannu £350,000 tuag at gost y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, ond ni chwaraeodd unrhyw ran yn y penodiad ei hun a wnaed gan y Bwrdd Iechyd cyn i'r cyllid hwn gael ei gadarnhau. Canfu fy ngwaith hefyd, er bod y Bwrdd Iechyd yn haeru bod cyfraddau cystadleuol wedi eu negodi ar gyfer y penodiad, fe wnes i ganfod bod y gyfradd ddyddiol o £1,890 sy'n cael ei thalu gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro yn uwch na mwyafrif y cymaryddion meincnod a ddefnyddiwyd gan swyddogion yn ystod y broses benodi.

## Ailwampio Ysbyty Glan Clwyd

45 Nododd fy adroddiad gyfrif ffeithiol o'r materion allweddol sy'n cyfrannu at y cynnydd sylweddol yng nghost prosiect ailwampio Ysbyty Glan Clwyd o'i chymharu â'r hyn y cytunwyd arno yn 2012. Arweiniodd y gwaith ailwampio at ddileu oddeutu 300,000 tunnell o wastraff halogedig yn llwyddiannus o safle ysbyty prysur. Ar yr un pryd, mae'r prosiect wedi gwella cyfleusterau a fydd yn rhoi gwell profiad ac amgylchedd i gleifion a staff.

46 Canfu fy adolygiad o reolaeth y rhaglen symud asbestos ac ailwampio'r ysbyty wendidau wrth baratoi'r achosion busnes, a diffygion yn y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi llywodraethu a rheoli'r prosiect hwn. Cwblhawyd y gwaith ailwampio ar amser yn fras ym mis Chwefror 2019. Ar y cyfan, bu cynnydd yng nghost y prosiect

a arweiniodd at Lywodraeth Cymru yn cyfrannu £53.2 miliwn a’r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu £7.2 miliwn yn fwy na’r £110.4 miliwn o gyllid a ddyfarnwyd yn wreiddiol. Mae’r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gryfhau eu dulliau priodol o reoli a chymeradwyo prosiectau cyfalaf yn y dyfodol.

## Trefniadau Gofal Iechyd Parhaus

47 Asesodd fy ngwaith reolaeth Gofal Iechyd Parhaus y Bwrdd Iechyd. Fe wnes i ganfod bod gwendidau llywodraethu a goruchwylio wedi arwain at aneffeithlonrwydd, amrywiadau a thensiynau yn y broses o reoli gofal iechyd parhaus, ond mae’r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu cynllun uchelgeisiol ar gyfer gwelliannau.

48 Yn 2018, newidiodd y Bwrdd Iechyd strwythur ei dîm Gofal Iechyd Parhaus er mwyn helpu i ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol at ddibenion darparu gwasanaethau. Creodd y gwaith ailstrwythuro chwe is-dîm sy’n cwmpasu ardaloedd daearyddol (Dwyrain, Canol a Gorllewin), timau arbenigol a thîm rheoli corfforaethol hefyd. Fodd bynnag, wrth ddatrys un mater, gwanhaodd y strwythur newydd y capasiti i gydgysylltu a rheoli gofal iechyd parhaus yn ganolog. Mae’r gwendidau hyn wedi golygu bod gwasanaethau wedi datblygu mewn ffordd na chynlluniwyd ar ei chyfer a’u bod wedi arwain at rywfaint o aneffeithlonrwydd a thensiynau achlysurol rhwng gwahanol dimau. Cefais gyfleoedd hefyd i ddatblygu adroddiadau ariannol mwy cyson, i ddefnyddio’r systemau TG yn well ac i wella’r broses o fesur a rheoli perfformiad.

49 Yn fwy cadarnhaol, ers hydref 2019, mae’r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu rhaglen wella uchelgeisiol a ddylai fynd i’r afael â llawer o’r materion a nodwyd gennyf yn yr adolygiad.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2020.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2020 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2020 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2020 | Hydref 2020 |
| Effeithiolrwydd y trefniadau atal twyll | Medi 2020 |
| Trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Aelodau Staff Dros Dro | Mawrth 2020 |
| Ailwampio Ysbyty Glan Clwyd | Gorffennaf 2020 |
| Trefniadau Gofal Iechyd Parhaus | Tachwedd 2020 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2020 | Mawrth 2020 |

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda brasamcan o'r dyddiadau ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Brasamcan o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | Tachwedd 2020 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2020 |
| Orthopedeg | Rhagfyr 2020 |
| Adolygiad o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Rhagfyr 2020 |
| Profi, Olrhain a Diogelu | Rhagfyr 2020 |
| Gofal heb ei drefnu | Cam 1 – Chwefror 2021<br>Mae rhagor o waith i'w gynnwys yn rhan o gynllun 2021 |
| Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | Ebrill 2021 |
| Adolygiad o Offthalmoleg (gohiriwyd gyda'r bwriad o'i ddisodli) | |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2020 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £407,921 (heb gynnwys TAW). Ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn cyd-fynd â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol**

Nododd fy Nghynllun Archwilio 2020 y risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2019-20 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau i'w gweld ym mhob endid. O ganlyniad i'r natur anrhagweladwy pan allai'r gwrthwneud hyn ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol. [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarnau; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Ar sail sampl, gwnaethom brofi cofnodion cyfnodolion ac amcangyfrifon cyfrifyddu ac ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod y rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau.<br>Roeddem yn fodlon bod y cyfrifon yn rhydd o wallau perthnasol. |
| Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw, ac felly fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.26- 27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried cyflawnrwydd incwm amrywiol. | Yn rhan o'n profion archwilio, gwnaethom waith er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch cyflawnrwydd incwm amrywiol, gan gynnwys cadarnhau trydydd partïon. Roeddem yn fodlon ei fod wedi ei ddatgan yn berthnasol. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Unwaith eto, bydd y Bwrdd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf o fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r sefyllfa ym mis 10 yn dangos diffyg y flwyddyn hyd yma o £34.3 miliwn ac yn rhagweld diffyg o £41 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2017-18 a 2018-19, yn rhagweld diffyg tair blynedd o £121.1 miliwn. O ganlyniad, byddaf yn rhoi amod ar fy marn archwilio ar reoleidd-dra ac yn rhoi adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod â thuedd er mwyn sicrhau nad yw'r diffyg a ragwelir yn gwaethygu ymhellach. | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio eu profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys tuedd wrth lunio adroddiadau. | Gwnaethom ystod o waith archwilio i roi sicrwydd ynghylch y risg o duedd er mwyn sicrhau nad oedd y sefyllfa wirioneddol o ran diffyg yn gwaethygu o'i chymharu â'r sefyllfa a ragwelwyd. Roedd hyn yn cynnwys:<br>• proses fanwl o brofi samplau o drafodiadau y naill ochr i ddiwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Canolbwyntiwyd hyn ar y meysydd a oedd yn peri'r risg fwyaf.<br>• sicrhau bod amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu paratoi ar sail resymol a'u bod yn cael eu hategu gan ddyfarniadau cyfrifyddu priodol.<br><br>Roeddem yn fodlon bod y cyfrifon yn rhydd o wallau perthnasol. Fodd bynnag, rhoddais amod ar y farn archwilio ar reoleidd-dra. |
| Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog Gyfarwyddyd Gweinidogol ffurfiol i'r Ysgrifennydd Parhaol yn ei gwneud yn ofynnol iddi weithredu menter 'taliadau cynllun' mewn cysylltiad â threfniadau treth bensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol. | Rydym yn ystyried triniaeth gyfrifyddu a goblygiadau archwilio'r cyfarwyddyd (y cyntaf yng Nghymru ers 1999) ar y cyd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n mynd i'r afael â'r un mater yn GIG Lloegr ar hyn o bryd. | Gwnaethom fodloni ein hunain bod y datgeliad atebolrwydd amodol a wnaed yn y cyfrifon yn briodol. Roedd Pwyslais ar Fater mewn cysylltiad â'r mater hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad archwilio. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Y gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Gallai cyflwyno Lesoedd Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 yn 2020-21 achosi risgiau gweithredu. | Bydd fy nhîm yn gwneud rhywfaint o waith cynnar er mwyn adolygu’r parodrwydd ar gyfer cyflwyno Lesoedd Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16. | O ganlyniad i bandemig COVID-19, gohiriwyd gweithrediad Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 tan 2021-22. Byddwn yn gwneud y gwaith hwn y flwyddyn nesaf. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.